# Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**2013 dccc 7**

*Mapiau*

**4 Mapiau rhwydwaith integredig**

(1) Rhaid i bob awdurdod lleol—

(a) llunio map rhwydwaith integredig, a

(b) ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(2) At ddibenion y Ddeddf hon, ystyr "map rhwydwaith integredig", mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw map sy'n dangos—

(a) y llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig, a

(b) y gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig,

y mae eu hangen ym marn yr awdurdod lleol i ddatblygu neu wella rhwydwaith integredig o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig mewn mannau dynodedig yn ei ardal.

(3) Wrth i awdurdod lleol baratoi ei fap rhwydwaith integredig rhaid iddo ymgynghori â'r canlynol—

(a) pob person sydd wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol ymgynghori ag ef am ei fap llwybrau presennol, a

(b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol.

(4) Wrth baratoi ei fap rhwydwaith integredig rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ddymunoldeb—

(a) hyrwyddo teithiau teithio llesol, a

(b) sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig a gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig.

(5) Wrth i awdurdod lleol lunio ei fap rhwydwaith integredig rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o ran—

(a) yr ymgynghoriad a'r camau eraill sydd i'w cymryd wrth ei lunio,

(b) y cyfnod y mae i ymwneud ag ef,

(c) y materion sydd i'w dangos arno, a

(d) ei ffurf.

(6) Rhaid i awdurdod lleol gyflwyno ei fap rhwydwaith integredig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo—

(a) cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r adran hon i rym, neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd a roddir i'r awdurdod lleol yn pennu dyddiad ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw fel y dyddiad y mae rhaid ei gyflwyno iddynt, heb fod yn hwyrach na'r dyddiad hwnnw.

(7) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo map rhwydwaith integredig a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol o dan yr adran hon, cânt drwy gyfarwyddyd a roddir i'r awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol—

(a) ei ddiwygio (neu ei ddiwygio ymhellach), a

(b) ei gyflwyno iddynt i'w gymeradwyo heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(8) Wrth i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylent gymeradwyo map rhwydwaith integredig a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol o dan yr adran hon rhaid iddynt ystyried a yw'r awdurdod lleol wedi cydymffurfio ag is-adrannau (3) a (5) wrth ei lunio.

(9) Unwaith y bydd map rhwydwaith integredig a lunnir gan awdurdod lleol wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol ei adolygu'n barhaus,

(b) caiff yr awdurdod lleol ei ddiwygio, ac

(c) rhaid i'r awdurdod lleol ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo cyn diwedd pob cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y'i cymeradwywyd ganddynt ddiwethaf.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd a roddir i awdurdod lleol bennu cyfnod sy'n wahanol i'r cyfnod yn is-adran (9)(c) fel y cyfnod y mae rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno map rhwydwaith integredig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo cyn ei ddiwedd.